Cofnodion – PCRhGC – 11 Medi 2015

| Yn bresennol: | |
|---|---|
| Arwel Wyn Owen (AO), CS Gwynedd (Cadeirydd)<br>Lynne Evans (LE), Tai GC (Dirprwy Gadeirydd)<br>Gwynfor Griffiths (GG), Cyngor Sir Ddinbych<br>Stephen Lynch (SL), Llywodraeth Cymru<br>Gwenan Ellis (GE), Grŵp Cynefin<br>Sam Parry (SamP), CBS Conwy<br>Shan Lloyd Williams (SLW), CS Ynys Môn<br>Y Cyng. Ioan Thomas, CS Gwynedd<br>Y Cyng. Aled M Jones (AMJ), CS Ynys Môn<br>Mike Jenkins (MJ), CBS Wrecsam<br>Katie Clubb (KC), Cyngor Sir y Fflint | Elwen Roberts (ER), Gwasanaethau Trais yn y Cartref De Gwynedd<br>Arwel Jones (AJ), CS Ynys Môn<br>Y Cyng. Phil Edwards (PE), CBS Conwy<br>Debbie Lambe (DL) CBS Conwy<br>Gwynne Jones (GJ), Cartrefi Conwy<br>Robert Loudon (RL), Cymdeithas Tai Clwyd Alun<br>Mary Harrison (MH), Anheddau<br>Becky Tullett (BT), Cyngor Sir y Fflint – yn bresennol ar gyfer eitem rhif 8 yn unig |

| | | I'w weithredu gan |
|---|---|---|
| 1 | Croeso, Ymddiheuriadau a Datganiadau o fuddiant | |
| | Derbyniwyd ymddiheuriadau gan:<br>David Lloyd (DLl), TPAS Cymru<br>Judith Magaw (JM), Prawf Cymru<br>Sue Owen (SO), BIPBC<br>Suzanne Pemberton (SP) Cyngor Sir y Fflint<br>Y Cyng. Helen Brown, Cyngor Sir y Fflint<br>Y Cyng. Bobby Feeley, (BF), Cyngor Sir Ddinbych<br>Sian Elen Tomos, GISDA<br>Y Cyng. Joan Lowe (JL), CBS Wrecsam<br>Enid Roberts (ER), CCG<br>Katie Newe (KN), Cyngor Sir Ddinbych<br>Andy Lewis (AL), CBS Wrecsam<br>Wyn Thomas (WT), BIPBC<br>Sheila Phillips (SP), Cyngor Sir Gwynedd<br>Shirley Jones (SJ), CBS Wrecsam<br>Phil Forbes (PF), BIPBC<br><br>Ni chafwyd unrhyw ddatganiad o wrthdaro buddiannau gan yr aelodau.<br><br>Atgoffodd y Cadeirydd bawb i gwblhau eu ffurflenni gwrthdaro buddiannau a'i dychwelyd at Debbie Lambe.<br><br>Yn anffodus, roedd Sian, GISDA, wedi gorfod ymddiswyddo o'i swydd gyda'r Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol. Diolchodd y Cadeirydd iddi ar ran y PCRh am ei hymrwymiad yn ystod ei chyfnod fel cynrychiolydd. Debbie i ysgrifennu at Sian.<br><br>Diolchodd y Cadeirydd hefyd ar ran y PCRh i Cara am ei holl waith a'i hymrwymiad yn ystod ei chyfnod fel y Cydlynydd Datblygu Rhanbarthol (CDRh). Debbie i ysgrifennu at Cara. | |

DRAFT

| | | |
|---|---|---|
| | | |
| 2 a 3 | **Cofnodion a Chamau Gweithredu o'r Cyfarfod Blaenorol** | |
| | Ni chafwyd unrhyw ddiwygiadau  i gofnodion cyfarfod 8fed Mai 2015<br><br>**Camau Gweithredu**<br>Pecyn Gwaith Cysondeb<br>Mae gwaith pellach yn cael ei wneud ar wybodaeth mapio canlyniadau ac anghenion a sut y gellid cyflwyno hyn mewn ffordd ystyrlon i'r grŵp – bydd gwybodaeth ar gael ar gyfer y gweithdy ym mis Tachwedd i'r PCRh.<br><br>Papur Briffio<br>Paratoi a dosbarthu papur ar gyfer sylwadau yn barod am yr etholiadau yn 2016. | CDRh<br><br><br><br><br>CDRh |
| 4 | **Deddf Gofal Cymdeithasol a Lles – Cyflwyniad** | |
| | Rhoddodd GG gyflwyniad gwych ar y Ddeddf Gofal Cymdeithasol a Lles<br><br>Crynodeb o'r pwyntiau fel a ganlyn<br>1. Mae'r canlyniadau ar gael ar-lein<br>2. Mae angen cynnal asesiadau o anghenion y boblogaeth ar y cyd ag iechyd<br>3. Ffocws ar ymyrraeth gynnar<br>4. Prawf Cymhwyster – gallu/gallu ei wneud – mae hyn yn golygu y bydd anghenion ond yn cael eu cyflawni gan y Gwasanaethau Cymdeithasol yn dilyn y prawf hwn.<br>5. Codi taliadau – cyhoeddwyd canllawiau newydd yn gynharach eleni.  Tebyg i'r trefniadau presennol<br>6. Diogelu – pŵer newydd – Gorchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion. Dyletswydd i hysbysu am oedolion sy'n agored i niwed<br>7. Dyletswydd i gydweithredu – beth mae hyn yn ei olygu?  Pwy yw'r partneriaid?  Beth yw'r ddyletswydd?<br><br>Y CDRh i anfon dolen i'r wefan ar gyfer gwybodaeth bellach.<br><br>Gofynnodd y Cynghorydd PE sut mae hyn yn cysylltu â'r Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol – a allwn gael cyflwyniad ar hyn yn un o gyfarfodydd y PCRh yn y dyfodol.  Y CDRh i drefnu hyn.<br><br>Y CDRh i greu tabl gyda phenawdau o bob un o'r Deddfau a'r prif bwyntiau ar gyfer pob un.<br><br>Cafwyd trafodaeth am y Ddeddf newydd - mae yna rai pwyntiau cadarnhaol am ei bod yn canolbwyntio ar yr unigolyn.  Fodd bynnag, y dyddiau hyn nid yw cymunedau'n adnabod ei gilydd ar y cyfan a gallai fod yn anodd wrth geisio gofalu am ei gilydd.  Sut ydym ni'n rhoi gwybod i ddefnyddwyr gwasanaeth am y newidiadau?  Mae cyllidebau'n lleihau'n gyson - gallai fod yn anodd i wasanaethau Cefnogi Pobl a fydd, heb unrhyw amheuaeth, yn gorfod cymryd rhai o'r cleientiaid yn dilyn y prawf gallu/gallu gwneud. | CDRh<br><br>CDRh<br><br>CDRh |
| 5 | **Gadewch i ni Barhau i Gefnogi Pobl** | |

| | | |
|---|---|---|
| | **Diweddariad ar y Cynnig**<br>Cyngor Sir Gwynedd – cyflwyno ger bron y Cyngor Llawn ym mis Hydref<br>Cyngor Sir Ddinbych – Y Cyngor Llawn yn cefnogi'r cynnig<br>CBS Wrecsam – dim diweddariad<br>Cyngor Sir y Fflint – cyflwyno ger bron y Cabinet<br>Ynys Môn – Grŵp Cynllunio – cymeradwyo. Fodd bynnag, mynegwyd pryderon ynglŷn â swyddogaeth y Swyddogion ynghylch ymgyrchu. Cytuno mewn egwyddor gyda'r cynnig ond mae'r broses yn broblem o fewn yr awdurdod lleol.<br>Cartrefi Conwy – Derbyniwyd cymeradwyaeth y Bwrdd<br>Tai Gogledd Cymru – Cyflwyno ger bron cyfarfod y bwrdd 17 Medi 2015<br><br>Unrhyw sefydliad arall i roi gwybod i'r Cydlynydd Datblygu Rhanbarthol os yw'r cynnig wedi'i gefnogi.<br><br>**Datganiad Drafft Gadewch i ni Barhau i Gefnogi Pobl**<br>Dosbarthwyd y datganiad drafft cyn y cyfarfod.<br>Ychwanegwyd pwyntiau yn dilyn y gweithdy ym mis Gorffennaf.<br>Y PCRh yn cytuno i fabwysiadu'r datganiad.<br>Y CDRh i drefnu cyfieithiad a'i ddosbarthu i bawb.<br><br>**Is-grŵp Gadewch i ni Barhau i Gefnogi Pobl - diweddariad (prosiect peilot)**<br>**Ceisiadau / Ymholiadau Prosiectau Peilot**<br>Ar adeg y cyfarfod, roedd CBSC wedi derbyn un cais, mae Cyngor Sir Gwynedd ac Ynys Môn wedi derbyn ymholiadau.<br>Cynhelir cyfarfod ar 29 Medi 2015 i drafod unrhyw geisiadau.<br><br>**Adroddiad**<br>Dosbarthwyd adroddiad cyn y cyfarfod.<br>Cytunwyd ar yr argymhellion ar dudalen 2 yr adroddiad.<br>Y CDRh i ddrafftio'r cylch gorchwyl ar gyfer yr is-grŵp ar gyfer y cyfarfod ym mis Tachwedd. | **Y PCRh cyfan**<br><br>**CDRh**<br><br>**Is-Grŵp**<br><br>**CDRh** |
| 6 | **Adroddiad Diweddaru'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Anableddau Dysgu** | |
| | Cyflwynodd Rob yr adroddiad diweddaru, a oedd wedi'i ddosbarthu cyn y cyfarfod.<br><br>Mae'r amserlen wedi'i diwygio i gynnwys gwasanaethau Wardeniaid yn unig. Mae gwaith pellach yn cael ei wneud gan brif Swyddogion Gogledd Cymru ar gostau'r Gwasanaethau Wardeniaid a hefyd larymau gwifren galed.<br><br>Debbie i anfon y tabl at y Swyddogion Arweiniol i gwblhau unrhyw wybodaeth sy'n weddill er mwyn cwblhau'r gwaith.<br><br>Bydd canlyniad y gwaith yn cael ei drafod yn y cyfarfod nesaf ym mis Hydref 2015. | **DL** |
| 7 | **Adroddiad Diweddaru'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Anableddau Dysgu** | |
| | Cyflwynodd Debbie yr adroddiad a oedd wedi'i ddosbarthu cyn y cyfarfod.<br><br>Cyfarfu'r grŵp eto ar 2 Medi a thrafodwyd gwaith pellach i'w wneud ar ganlyniadau, ariannu gwasanaethau (mewnol ac allanol) a chymhwyster. Bydd holiadur yn cael ei | **DL** |

DRAFFT

| | | |
|---|---|---|
| | anfon at y Swyddogion Arweiniol ar gyfer y wybodaeth hon. Bydd angen i'r grŵp ddychwelyd ei sylwadau erbyn 14 Medi 2015. | |
| 8 | Body Positive | |
| | Cyflwynodd BT yr adroddiad a oedd wedi'i anfon cyn y cyfarfod.<br>Cymeradwywyd yr argymhellion i ddatgomisiynu'r prosiect gan aelodau'r PCRh. | |
| 9 | Carchar Gogledd Cymru - Cyflwyniad | |
| | Rhoddodd Lee gyflwyniad gwych ar Garchar newydd Gogledd Cymru.<br><br>Lee i wahodd Russell Trent i un o gyfarfodydd y PCRh yn y dyfodol. Y CDRh i anfon dyddiadau. | CDRh |
| 10.1 | Diweddariad gan Lywodraeth Cymru | |
| | Roedd Steve wedi darparu nifer o ddiweddariadau cyn y cyfarfod. Y prif bwynt trafod a drafodwyd oedd y gyllideb ar gyfer 2016-17.<br><br>Mae'n annhebygol y bydd unrhyw newyddion ar y cyllidebau ar 2016-2017 tan y Flwyddyn Newydd. Cafwyd trafodaeth ar hyn a gofynnodd y grŵp i Lywodraeth Cymru gael ei hysbysu ynglŷn â'r ffaith bod angen i Awdurdodau Lleol wybod cyn gynted â phosibl beth fydd eu cyllideb debygol er mwyn gallu gwneud gwaith cynllunio. Mae angen y swm cywir o rybudd ar Awdurdodau Lleol pan fydd contractau yn dod i ben ac mae Ionawr 2016 yn rhy hwyr (mae angen rhybudd o 3 mis).<br><br>Roedd rhai Darparwyr wedi cael eu cynghori i ddisgwyl gostyngiad o 10% o leiaf i'w cyllid.<br><br>Cafwyd trafodaeth bellach ar fewnfudo – a oes angen i ni fod yn barod am hyn? Mae'r Gweinidog yn cwrdd yr wythnos nesaf i drafod hyn. Dylai cymorth tramor talu rhywfaint o'r costau ar gyfer y flwyddyn gyntaf.<br><br>Eitem i'w chynnwys ar Agenda cyfarfod yn y dyfodol – Yr Effaith o Dderbyn Mewnfudwyr | CDRh |
| 10.2 | Diweddariad Rhwydwaith Gwybodaeth Cefnogi Pobl Gogledd Cymru (NWSPIN) | |
| | Mae'r Swyddogion Arweiniol wedi dechrau ar Adolygiad Cymheiriaid y Cynllun Gwariant.<br>Gwaith pellach i'w wneud ar hyn.<br>Debbie i anfon cwestiynau pellach at y Swyddogion Arweiniol – yr adroddiad i'w gyflwyno ar gyfer y gweithdy ym mis Tachwedd. | DL |
| 10.3 | Gwneud cysylltiadau gyda Cymunedau yn Gyntaf, Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg | |
| | Dim i'w adrodd y tro hwn. | |
| 10.4 | Arfer Gorau / Gwersi a Ddysgwyd ynglŷn â Deddf Tai (Cymru) a'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles | |
| | Mae Cefnogi Pobl yng Nghonwy wedi cynhyrchu taflen gyda'u cydweithwyr yn | |

DRAFT

| | | |
|---|---|---|
| | Datrysiadau Tai Conwy ar y prif bwyntiau / newidiadau i Ddeddf Tai (Cymru). Debbie i'w rhannu gyda'r grŵp.<br><br>Cynigiodd Sam Parry i wneud cyflwyniad ar Datrysiadau Tai Conwy mewn cyfarfod yn y dyfodol. Y CDRh i gynnwys hyn ar gyfer agenda cyfarfod Ionawr 2016. | DL<br><br><br>CDRh |
| 10.5 | Arbedion Effeithlonrwydd | |
| | Mae pob Awdurdod Lleol yn gweithio at 10%. | |
| 10.6 | Cynllun Gwaith y PCRh | |
| | Dosbarthwyd er gwybodaeth. | |
| 10.7 | Profiadau Defnyddwyr Gwybodaeth | |
| | Ynys Môn<br>Esboniodd Arwel y papur a ddosbarthwyd cyn y cyfarfod.<br>Astudiaethau achos gwych ar sut mae'r gwasanaethau yn helpu defnyddwyr gwasanaeth.<br><br>Dadansoddi Holiadur Cynnwys Defnyddwyr Gwasanaethau<br>Cyflwynodd Debbie yr adroddiad a oedd wedi'i dosbarthu cyn y cyfarfod.<br><br>Un argymhelliad i'r is-grŵp (a gymeradwywyd yn y cyfarfod hwn) oedd monitro cyfranogiad defnyddwyr gwasanaeth oherwydd mae rhai meysydd wedi llithro ers y rownd ddiwethaf o holiaduron.<br><br>Cymeradwywyd yr argymhelliad. | |
| 10.8 | Unrhyw fater arall<br><br>Gofynnodd y Cynghorydd Elsemore i gael mynychu cyfarfod PCRh Gogledd Cymru i arsylwi.<br>**Cytunwyd y dylai'r CDRh estyn gwahoddiad i gyfarfod yn y dyfodol.**<br><br>Adolygiad Blynyddol – ar gael i'w ddarllen ar wefan CBSC<br><br>Etholiadau Landlordiaid<br>Derbyniwyd dau enwebiad hyd yma. Mae angen atgoffa i anfon enwebiadau os oes diddordeb.<br><br>Llythyr gan Ceri Breeze at y Pennaeth Tai ynglŷn â chyllid ar gyfer 2016-2017 i'w ddosbarthu i bawb.<br>**Y CDRh i'w ddosbarthu.**<br><br>Dyddiad i'r dyddiaduron<br>Digwyddiad Trechu Tlodi – 9 Tachwedd 2015 yn Llandudno | <br><br><br>CDRh<br><br><br><br><br><br><br><br><br>CDRh |

DRAFT

Dyddiad y cyfarfod nesaf:

10am – 12pm
13eg Tachwedd 2015
Ystafell Y Bwrdd, Optic Centre, Parc Busnes Llanelwy, Llanelwy, LL17 0JD.

DRAFFT

Tabl o gamau gweithredu

| Eitem ar yr agenda | Cam Gweithredu | Pwy | Statws |
|---|---|---|---|
| 2 a 3 | Cyflwyno'r Canlyniadau a'r wybodaeth Mapio Anghenion yn y gweithdy ar 13 Tachwedd 2015 | CDRh | |
| 2 a 3 | Papur briffio i'w baratoi yn barod ar gyfer etholiadau 2016 | CDRh | Cwblhawyd |
| 4 | Y CDRh i anfon dolen i wefan Cyngor Gofal Cymru | CDRh | Cwblhawyd |
| 4 | Y CDRh i drefnu cyflwyniad ar gyfer cyfarfod y PCRh yn y dyfodol ar Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol | CDRh | Aros am Ymateb |
| 4 | Y CDRh i gynhyrchu tabl gyda phenawdau pob Deddf (Gofal Cymdeithasol a Lles; Deddf Tai a Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol) a dangos prif bwyntiau pob un | CDRh | Cwblhawyd |
| 5 | Pob aelod o'r PCRh i hysbysu'r CDRh a yw'r Cynnig Cefnogi Pobl wedi'i gefnogi yn eu sefydliad hwy. | Holl aelodau'r PCRh | Y CDRh wedi cysylltu |
| 5 | Y datganiad Gadewch i ni Barhau i Gefnogi Pobl i'w gyfieithu a'i ddosbarthu i bawb. | CDRh | Cwblhawyd |
| 5 | Yr Is-grŵp i drafod ceisiadau ar gyfer Prosiectau Peilot ac adrodd yn ôl i gyfarfod nesaf y PCRh. | Is-Grŵp | |
| 5 | Y CDRh i ddosbarthu'r cylch gorchwyl ar gyfer yr Is-grŵp newydd ar gyfer y cyfarfod ar 4 Tachwedd. | CDRh | Cwblhawyd |
| 6 | Tabl i'w ddosbarthu i'r Swyddogion Arweiniol i'w gwblhau ar gyfer cymharu costau larwm a warden. | Debbie | |
| 7 | Dosbarthu'r holiadur i'r Swyddogion Arweiniol i'w gwblhau. | Debbie | Aros am yr holiaduron |
| 9 | Y CDRh i gysylltu â Sara Kettle i drefnu i Russell Trent fynychu un o gyfarfodydd y PCRh yn y dyfodol. | CDRh | |
| 10.1 | Eitem i'w chynnwys ar agenda cyfarfod yn y dyfodol – Yr Effaith o Dderbyn Mudwyr | CDRh | Cwblhawyd PCRh Ionawr |
| 10.2 | Adolygiad Cymheiriaid o'r Cynllun Gwariant – Debbie i anfon cwestiynau pellach i'r Swyddogion Arweiniol eu cwblhau. | Debbie | |
| 10.4 | Taflen a gynhyrchwyd gan CBSC i'w dosbarthu i bawb ar Ddeddf Tai (Cymru). | Debbie | Cwblhawyd |
| 10.4 | Cyflwyniad gan CBSC (Sam Parry) ar Datrysiadau Tai Conwy i'w roi mewn cyfarfod o'r PCRh yn y dyfodol – y CDRh i drefnu a chynnwys hyn ar yr agenda. | CDRh | Cwblhawyd PCRh Ionawr |
| 10.8 | Y CDRh i gysylltu â'r Cynghorydd Elsmore i roi dyddiadau cyfarfodydd yn y dyfodol. | CDRh | Cwblhawyd |
| 10.8 | Y CDRh i ddosbarthu llythyr gan Ceri Breeze. | CDRh | Cwblhawyd |